**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 15 Medi 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynghorwyr - Abertawe**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | L R Jones | R V Smith |

**Cynghorwyr - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| W Carpenter | R Mizen | C Phillips |
| N Jenkins | | |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Andrew Dulley | Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu |
| Janet Watkins | Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Clare Davies | Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell - CNPT |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Cynghorwyr E J King a S Renkes a T McNulty a C Saunders

---

**6 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, datganwyd y cysylltiad canlynol:

Andrew Dulley - Eitem 4 - personol.

**7 Ethol is-gadeiryddion ar gyfer blwyddyn y cynghorau 2023-2024.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorwyr R V Smith a C Phillips yn Is-gadeiryddion y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024.

**8 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

## 9 Materion yn Codi

Adroddodd yr Archifydd Sirol fod lansiad Archif Ddarlledu Cymru wedi'i oedi ymhellach am resymau amrywiol.

Dywedodd y bydd y dyddiad lansio yn debygol o fod ym mis Hydref, ac mae'n debygol y bydd y Gornel Clip yn y Gwasanaeth Archifau yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe yn agor ar yr un pryd â'r cyfleuster yn Llyfrgell Glowyr De Cymru ym Mhrifysgol Abertawe.

## 10 Adroddiad Archifydd y Sir.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd rhwng mis Mehefin a mis Awst 2023.

Y Defnydd o'r Gwasanaeth

Adroddodd am y ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gwasanaeth drwy ei lwyfannau amrywiol yn bersonol ac ar-lein. Trafodwyd a dadleuwyd y ffactorau sy'n ymwneud â hyn mewn nifer o gyfarfodydd yn y gorffennol.

Staff

Adroddodd fod Anne-Marie Gay wedi cael ei dyrchafu i'r swydd Archifydd rhan-amser ers y cyfarfod diwethaf, a phenodwyd Peter Neville i'r swydd Cynorthwydd Archifau rhan-amser.

Mae'r gwasanaeth yn bwriadu recriwtio Cynorthwyydd Archifau arall a fydd yn golygu bod cyflenwad staff llawn yn y gwasanaeth, ac yn galluogi ar gyfer ailagor gwasanaeth Abertawe yn ystod amser cinio ac ailagor gwasanaeth Castell-nedd ddeuddydd yr wythnos. Bydd hyn yn golygu bod oriau agor y gwasanaeth yn dychwelyd i 46 awr yr wythnos yn lle 36 awr yr wythnos.

Amlinellodd y bydd mynediad ar-lein at Gyfrifiad 1921 yn cael ei ddarparu yn Sefydliad y Mecanyddion yng Nghastell-nedd cyn bo hir yn ogystal ag yn yr ystafell ymchwil yn Abertawe.

Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol

Cyflwynodd staff sesiwn addysgol i un ysgol yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd sesiynau misol hefyd gyda Changen Abertawe o Gymdeithas Hanes Teulu Morgannwg sydd bellach yn cwrdd yn rheolaidd yn y Ganolfan Hanes Teulu.

<u>Dyfarniadau Grant sy'n ymwneud â'r Symud</u>

Amlinellodd fod gwaith paratoi yn parhau tuag at y cynllun symud 14 pwynt a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru ac ymgynghorydd allanol y Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol.

Manylodd ar y gwaith sy'n parhau yn yr 8 prif faes, y mae staff yr Archifau yn ymgymryd ag ef i baratoi ar gyfer symud, gan gynnwys monitro amgylcheddol uwch; monitro plâu; cynnal arolwg asesu cadwraeth; gwella'r ffordd y caiff casgliadau clywedol a ffilm eu storio; a digideiddio'r casgliadau sleidiau gwydr.

Amlinellodd y grantiau gan Lywodraeth Cymru y mae'r gwasanaeth wedi'u derbyn tuag at gyflawni elfennau penodol o'r gwaith.

<u>Adleoli'r Archifau i Hwb Canol y Ddinas</u>

Amlinellodd fod y gwaith i ddylunio ardal storio newydd yr archifau yn Hwb Canol y Ddinas yn parhau tuag at gyflawni safon BS 4971, a rhoddwyd yr enw 'Y Storfa' i'r adeilad y ddiweddar.

Mae Cam 4 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain bellach wedi'i basio, ond gwnaed nifer o ddiwygiadau i'r prosiect ers y cyfarfod diwethaf yn dilyn ymarfer peirianneg gwerth, sy'n arfer safonol ar gynlluniau mawr er mwyn rhoi ystyriaeth i bwysau chwyddiant, costau adeiladu etc.

Mae nifer o gynigion ac addasiadau i'r cynllun gwreiddiol o ganlyniad i'r ymarfer yn cael eu hystyried a'u gwerthuso o hyd gan Lywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol. Mae'r broses o drafod a chadarnhau'r diwygiadau yn parhau ar hyn o bryd rhwng y contractwyr a'r ddau gorff uchod.

Y diwygiadau pennaf yw bod yr ystafell ymchwil wedi'i hadleoli i'r llawr cyntaf ac y byddai'r lifft i staff yn cael ei ddefnyddio i drosglwyddo dogfennau rhwng yr ystafell ymchwil a'r ystafell ddiogel. Mae strategaeth i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau gyda hyn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac ni ddisgwylir i hyn achosi unrhyw broblemau gweithredol.

Y prif newid arall yw bod y plenwm neu'r gwagle o amgylch yr ystafell ddiogel, y bwriadwyd iddo gael ei oeri/wresogi yn ôl yr angen, wedi cael ei ddileu. Bwriedir rhoi aerdymheru ar waith yn yr ystafell ddiogel yn lle. Amlinellodd ei bryderon ef a phryderon arbenigwr y Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol ynghylch y cynigion hyn, yn benodol mater yn ymwneud â rheoli lleithder, y cynigiwyd y gellir rheoli hyn â llaw.

Adroddwyd am farn yr arbenigwr o'r Gwasanaeth CadwraethCenedlaethol ynghylch y diwygiad hwn i'r pwyllgor. Amlinellodd mai Llywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol fyddai'n gwneud y penderfyniad o ran y diwygiadau arfaethedig yn y pen draw ac nid y gwasanaeth, ac y gall penderfyniadau a wneir yn awr effeithio ar ein hail gais am Achrediad llawn.

Gofynnodd y Cadeirydd a'r Aelodau gwestiynau a gwnaethant sylwadau am y cynigon diwygiedig gan amlinellu eu pryderon mewn perthynas â'r materion a godwyd ynghylch uniondeb yr ystafell ddiogel a'r goblygiadau posib ar achrediad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Amlinellodd fod yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cyfleuster archifau rhanbarthol newydd fel a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn y gorffennol wedi ei chwblhau, ac y caiff ei chyflwyno'n fuan i Dîm Adfywio'r Ddinas i ddechrau, sef y corff a gomisiynodd y gwaith. Dylai'r astudiaeth fod ar gael i'r pwyllgor ei gweld yn y dyfodol.

Cyfarfodydd a Hyfforddiant Proffesiynol

Amlinellodd y gwahanol grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Mynediad at Gasgliadau'r Archifau

Manylodd yr Archifydd Sirol ar yr archifau amrywiol a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth yn ystod y chwarter. Adroddodd fod y ffeil corffdy a ganfuwyd a oedd yn dyddio o adeg yr Ail Ryfel Byd a'r Blits yn Abertawe wedi cael ei gynnwys mewn erthygl Wales Online yn ddiweddar.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.51 am

**Cadeirydd**